1 Cwr y Ddinas / 1 Capital Quarter
Caerdydd / Cardiff
CF10 4BZ
Tel / Ffôn: 029 2032 0500
Fax / Ffacs: 029 2032 0600
Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660
info@audit.wales / post@archwilio.cymru
www.audit.wales / www.archwilio.cymru

**Sent via email**

**Reference:** AC513/caf
**Date issued:** 29 July 2025

Dear Colleague

# Report of performance audit work

I am writing to let you know that we are changing how we report the findings of our performance audit work.

The modern communications landscape, driven by technology and evolving user behaviour, is creating demand for information presented in more easily absorbable ways. We have certainly seen that reflected in feedback from our stakeholders.

Consequently, our Strategy for 2022 to 2027 sets out to improve the impact of our work through the way we communicate it. We have reviewed the structure, style and language of our performance audit reports with the aim being to make our work more accessible, and easier to read and understand. Our refreshed style will use simpler language suitable for a broader audience and wherever possible remove unnecessary ambiguity and complexity. I hope that by writing our reports in this way we make them more engaging and relevant, saving time and promoting greater understanding among all our stakeholders irrespective of background or role.

From July 2025 onwards you will start to see these changes appear, depending on the timing of your audit programme.

I recognise that simpler language and clearer messaging could initially feel uncomfortable, especially to those familiar with our current reporting style. Please

rest assured that our findings will remain based on robust methodology and sound evidence, reported with a focus on providing assurance and supporting improvement in the public sector. I certainly hope that you will find the new style strikes the right balance in providing simplicity and clarity while remaining credible and authoritative.

Please do not hesitate to contact me, Ann-Marie Harkin, Executive Director of Audit Services, or your Audit Wales Engagement Director if you would like to discuss this issue further.

Yours sincerely



**ADRIAN CROMPTON**
**Auditor General for Wales**

Archwilio Cymru
Audit Wales

1 Cwr y Ddinas / 1 Capital Quarter
Caerdydd / Cardiff
CF10 4BZ
Tel / Ffôn: 029 2032 0500
Fax / Ffacs: 029 2032 0600
Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660
info@audit.wales / post@archwilio.cymru
www.audit.wales / www.archwilio.cymru

**Wedi'i anfon trwy e-bost**

**Reference:** AC513/caf
**Date issued:** 29 Gorffennaf 2025

Annwyl gydweithiwr

## Adrodd ar waith archwilio perfformiad

Rwy'n ysgrifennu i roi gwybod i chi ein bod yn newid ein dull o adrodd canfyddiadau ein gwaith archwilio perfformiad.

Mae'r dirwedd gyfathrebu fodern, sy'n cael ei hysgogi gan dechnoleg ac ymddygiad defnyddwyr sy'n esblygu, yn creu galw am wybodaeth a gyflwynir mewn ffyrdd haws eu hamsugno. Rydym yn sicr wedi gweld hynny'n cael ei adlewyrchu mewn adborth gan ein rhanddeiliaid.

O ganlyniad, bwriad ein Strategaeth ar gyfer 2022 i 2027 yw gwella effaith ein gwaith trwy'r ffordd yr ydym yn ei gyfathrebu. Rydym wedi adolygu strwythur, arddull ac iaith ein hadroddiadau archwilio perfformiad gyda'r nod o wneud ein gwaith yn fwy hygyrch, ac yn haws i'w ddarllen a'i ddeall. Bydd ein harddull newydd yn defnyddio iaith symlach sy'n addas ar gyfer cynulleidfa ehangach a lle bynnag y bo modd byddwn yn dileu amwysedd a chymhlethdod. Rwy'n gobeithio, trwy ysgrifennu ein hadroddiadau yn y modd hwn, y byddwn yn eu gwneud yn fwy diddorol a pherthnasol, gan arbed amser ac annog gwell dealltwriaeth ymhlith ein holl randdeiliaid waeth beth fo'u cefndir neu eu rôl.

O fis Gorffennaf 2025 ymlaen byddwch yn dechrau gweld y newidiadau hyn yn ymddangos, yn dibynnu ar amseriad eich rhaglen archwilio.

Rwy'n cydnabod y gallai iaith symlach a negeseuon cliriach deimlo'n anghyfforddus i ddechrau, yn enwedig i'r rhai sy'n gyfarwydd â'n harddull adrodd bresennol. Gallwn

eich sicrhau y bydd ein canfyddiadau yn parhau i fod yn seiliedig ar fethodoleg gadarn a thystiolaeth gref, wedi’u hadrodd gyda phwyslais ar roi sicrwydd a chefnogi gwelliant yn y sector cyhoeddus. Rwy'n sicr yn gobeithio y byddwch chi o’r farn bod yr arddull newydd yn taro'r cydbwysedd cywir wrth ddarparu symlrwydd ac eglurder gan barhau i fod yn gredadwy ac yn awdurdodol.

Mae croeso i chi gysylltu â mi, Ann-Marie Harkin, Cyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Archwilio, neu eich Cyfarwyddwr Ymgysylltu Archwilio Cymru os hoffech drafod y mater hwn ymhellach.

Yn gywir



**ADRIAN CROMPTON**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**